OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1795 (Cy.170)

IECHYD CYHOEDDUS, CYMRU

Gorchymyn Rheoli Swn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud	- -	*9 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym	- -	*1 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 71 a 104(1) o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Swn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002 a daw i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Cymeradwyo codau ymarfer

2. Mae Codau Ymarfer canlynol y Sefydliad Safonau Prydeinig ("*British Standards Institution*") wedi'u cymeradwyo fel codau addas ar gyfer rhoi cyfarwyddyd ar leiafu sŵn:

(a) y Cod Ymarfer ar wybodaeth a gweithdrefnau sylfaenol ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad, sy'n dwyn y rhif BS 5228: Rhan 1: 1997 gan ymgorffori Diwygiad Rhif 1, a ddaeth i rym ar 15 Ebrill 1999 (ac sy'n ymwneud â chyflawni gwaith y mae adran 60 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 yn gymwys iddo, ymhlith pethau eraill);

(b) y Cod Ymarfer sy'n gymwys i echdynnu glo arwyneb drwy ddefnyddio dulliau cloddio brig, sy'n dwyn y rhif BS 5228: Rhan 3: 1997, a ddaeth rym ar 15 Mai 1997;

(c) y Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad sy'n gymwys i waith gosod pyst, sy'n dwyn y rhif BS 5228: Rhan 4: 1992, a ddaeth i rym ar 1 Mai 1992, fel y'i diwygiwyd gan Ddiwygiad Rhif 1 a ddaeth i rym ar 15 Gorffennaf 1993 (ac sy'n ymwneud â chyflawni gwaith y mae adran 60 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 yn gymwys iddo, ymhlith pethau eraill); ac

(**1**) 1974 p.40.

(**2**) Mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.